# CYLCHLYTHYR HPMA CYMRU

hpma Cymru

www.hpma.org.uk/cymru

GWANWYN 2023

## HPMA Cymru yn Cynnal Cynhadledd a Seremoni Wobrwyo flynyddol









**Y TU MEWN I'CH CYLCHLYTHYR AELODAETH HPMA CYMRU:**

- BIL PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS (CYMRU)
- DATBLYGU PROFFESIWN Y BOBL
- GWOBRAU CENEDLAETHOL HPMA
- CWCWRDD Â'R PWYLLGOR....A LLAWER MWY!

**DILYNWCH NI**

**GYDA CHI, AR EICH CYFER CHI**

*Gwella Iechyd Drwy Bobl*

**Y NEWYDDION DIWEDDARAF!**
Cyhoeddwyd dyddiad Cynhadledd Datblygu'r Proffesiwn Pobl:
**7 Tachwedd 2023**
Gwybodaeth bellach i ddilyn!



## Y TU MEWN I'CH CYLCHLYTHYR AELODAETH HPMA CYMRU

HPMA Cymru yn cynnal Cynhadledd a Seremoni Wobrwyo flynddol..........3

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)......................6

Datblygu'r Proffesiwn Pobl: Digwyddiad HPMA Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Chymuned Gwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol...................8

Gwobrau Cenedlaethol HPMA.........................9

Cwrdd â'r Pwyllgor: Gweinyddwr y Gangen ................................10

## AMDANOM NI

Diben HPMA Cymru yw gwella'r cyfraniad rheoli pobl ym maes gofal iechyd ac, yn y pen draw, gwella gofal cleifion.
Mae gan Gangen Cymru rôl bwysig i gefnogi aelodau i lunio rhwydweithiau cymorth proffesiynol a phersonol, hyrwyddo dysgu, cyflwyno cydweithwyr i syniadau newydd a gwahanol ffyrdd o weithio a darparu'r cyfle a'r amser i fyfyrio ar ymarfer. Mae hyn oll yn meithrin gallu ac effaith rheoli pobl yng Nghymru.



**Cadeirydd**
Gareth Hardacre



**Is-Gadeirydd**
Neil Lewis

## GWEFAN

www.hpma.org.uk/cymru

## CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**Trydar**
@HPMACymru

**LinkedIn**
www.linkedin.com/groups/4696956/

**YouTube**
HPMA Cymru

## CYSYLLTU Â NI

millie.tottle@wales.nhs.uk

# HPMA Cymru yn cynnal Cynhadledd a Seremoni Wobrwyo flynyddol

Cynhaliodd cangen HPMA Cymru ei Chynhadledd a'i Seremoni Wobrwyo flynyddol ar 1 Mawrth 2023 yn stadiwm Swansea.com, De Cymru. Hwn oedd ail ddigwyddiad wyneb yn wyneb y gangen ers y pandemig. Cafodd y gwaith anhygoel sydd i'w weld ledled y wlad ei amlygu drwy gydol y gwobrau ac roedd thema gyffredinol y dydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a dathlu diwylliant sefydliadol o fewn GIG Cymru.

Rhoddodd siaradwyr gwadd gyflwyniadau i gynulleidfa o 200 o bobl ar ystod eang o bynciau megis diwylliannau amrywiol, y Gymraeg ac adeiladu timau sy'n dod â safbwyntiau a thalentau gwahanol ac sydd yn y pen draw yn helpu i gynyddu arloesedd ac annog perfformio ar lefel uwch.



Ymhlith y siaradwyr yn y gynhadledd oedd Non Richards, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Trafododd y gwaith a wnaed o fewn PCGC o ran codi safonau'r Gymraeg ar draws y sefydliad, sut cafodd hyn ei wireddu, a pham ei bod yn bwysig nid yn unig i fodloni Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond i greu diwylliant sefydliadol gyda'r Gymraeg yn rhan annatod ohono.

Yn dilyn Non oedd y prif siaradwr Noel Mooney, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC). Trafododd sut y newidiodd y diwylliant o fewn CBDC dan ei arweiniad, trwy gydnabod meysydd i wella gan ddiweddaru a sefydlu llywodraethu cryf, strategaethau amrywiol, datblygiad unigol a sefydliadol a oedd yn ei dro yn meithrin ac yn ffocysu ar ymagwedd 'tîm Cymru' cryf.




Dilynwyd Noel gan Raja Biswas (isod) o Rwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Robert Workman o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Rhwydwaith CALON a Kokila Swamynathan, Ymgynghorydd Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar, THET (Ymddiriedolaeth Gwella Iechyd Trofannol), a gyflwynodd ar sut mae rhwydweithiau staff yn cefnogi diwylliant sefydliadol a'r pwysigrwydd o ddeall sut mae unigolion o bob cefndir yn hanfodol i sicrhau llesiant a llwyddiant mewn unrhyw sefydliad.



Ar ôl i'r siaradwyr orffen roedd cyfres o sesiynau grŵp a gafodd ymateb da. Y bwriad oedd rhannu'r hyn a ddysgwyd o bob rhan o GIG Cymru gan gynnwys; Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: Dyma Ein PCGC ni - Rhaglen Newid gan gynnwys Gwerthoedd ac Ymddygiadau; Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: Yr Iaith Gymraeg; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Ymgysylltu â staff nyrsio a gweithredu rhaglen arweinyddiaeth ddiwylliannol a; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Herio Penderfynu Torfol: 5 Ffordd o Feithrin Diogelwch Seicolegol yn eich sefydliad.

Roedd y seremoni wobrwyo yn cynnwys 11 o'r categorïau canlynol:

- Gweithio Traws-sector: Enillydd - James Green, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Menter Addysg, Dysgu a Datblygu: Enillydd - George Shouler, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Enillydd- Donna Hole a Marie-Andree Lachappelle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; Yn ail - Nia Gibbon, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Rhagoriaeth mewn Datblygiad Sefydliadol: Enillydd - Tîm Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru; Canmoliaeth Uchel - Becky Dyer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Gweithio mewn Partneriaeth Rhwng Cyflogwyr ac Undebau Llafur: Enillydd- Karolina Kobylnik, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Seren y Dyfodol: Enillydd- Matthew Brayford, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Natasha Price, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Tîm y Flwyddyn: Enillydd - Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; Yn ail - Ymyrraeth gynnar yn y Gwasanaeth Seicosis Headroom, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Llesiant: Enillydd- Kerry Flower-Fitzpatrick, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Arloesedd: Enillydd - Andrew Cooper, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Y Gymraeg: Enillydd- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Dadansoddeg Gweithlu: Enillydd- Tîm Strategaeth Pobl, Mewnwelediadau a Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.








Cadeirydd HPMA Cymru Gareth Hardacre;

"Mae Cymru'n gyfuniad o ddiwylliannau amrywiol, a nod ein Cynhadledd a'n Seremoni Wobrwyo oedd dathlu'r amrywiaeth hon gan mai dyma sy'n ein gwneud ni'n wych a hynny drwy adeiladu timau sy'n dod â safbwyntiau a thalentau gwahanol sydd yn y pen draw yn cynyddu arloesedd ac yn ysgogi perfformiad uwch. Tynnodd ein siaradwyr sylw at bwysigrwydd hyn ac roedd enillwyr ein gwobrau wedi bod yn greiddiol o ran sut y gellir rhoi hyn ar waith."

"Roedd safon y gwobrau eleni yn eithriadol o uchel, ac roedd yn amlwg y dylid dathlu safon uchel y gwaith o fewn ein rhanbarth ar lefel genedlaethol. Llongyfarchiadau mawr i'r holl enillwyr, y rhai a ddaeth yn ail, y rhai a gafodd ganmoliaeth uchel a diolch i bob cydweithiwr a anfonodd enwebiadau."

"Ni fyddai'r digwyddiad hwn yn bosibl heb yr holl Fyrddau Iechyd a chyrff iechyd cymdeithasau yng Nghymru sydd wedi cefnogi HPMA Cymru a chyrff iechyd cysylltiedig, gan gynnwys ein prif noddwyr, ACT. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith trefnu a chynllunio'r gynhadledd a'r gwobrau."

"Hoffwn hefyd annog cydweithwyr i anfon eu cyflwyniadau am wobrau ymlaen i Wobrau Cenedlaethol HPMA sydd ar ddod i dynnu sylw at y gwaith gwych y maent yn ei wneud ymhellach."











## Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Mae'r Bartneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Mae'n darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.

### Beth yw Partneriaeth Gymdeithasol?

Mae partneriaeth gymdeithasol yn golygu cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr (trwy undebau llafur fel arfer) ac weithiau'r llywodraeth, yn cydweithio i drafod materion o ddiddordeb cyffredin ac i ddatblygu atebion i'r heriau maent yn eu hwynebu.

Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi annog gweithio mewn partneriaeth fel y ffordd orau o ddod o hyd i atebion i'r heriau sy'n wynebu Cymru, yn seiliedig ar gydweithio ystyrlon a gonest. Mae'r model partneriaeth gymdeithasol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynllunio i wella gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau economaidd, gan gefnogi cysylltiadau gweithlu cryf.

Mae'n galluogi undebau llafur a chyflogwyr i fod yn bartneriaid gweithredol wrth sicrhau gwell canlyniadau a llesiant gwell i bobl Cymru, gan roi ymddiriedaeth, ymgysylltiad a deialog wrth wraidd datrys problemau.

### Beth fydd y Bil yn ei wneud?

Bydd y Bil yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol statudol cenedlaethol, o dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog Cymru.

Bydd yn dod â Llywodraeth Cymru, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr ynghyd (drwy Undebau Llafur) i roi cyngor i Weinidogion Cymru gyda'r nod cyffredinol o alluogi gweithlu'r sector cyhoeddus i gyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel a chanlyniadau gwell.

Bwriad y Bil yw ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bil wedi'i ddatblygu gan gymhwyso'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol gael ei gosod ar gyrff cyhoeddus penodol wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant. Mae holl fyrddau iechyd GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar hyn o bryd o fewn cwmpas y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Bydd y sefydliadau GIG Cymru canlynol hefyd yn cael eu hychwanegu, yn dilyn canlyniad ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i ben ar 20 Hydref 2022 ac a ofynnodd am farn ar ymestyn y ddyletswydd llesiant i gyrff cyhoeddus ychwanegol: Addysg Gwella Iechyd Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.



Bydd yn ofynnol i bob corff cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu amcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i ystyried gwaith teg wrth osod amcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac i ystyried caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol a chyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu dilyn drwy gadwyni cyflenwi.

## Y Daith Ddeddfwriaethol

Mae'r Bil ar hyn o bryd ar gam 3 o'i daith bedwar cam drwy broses graffu'r Senedd. Cyfeiriwch at wefan Senedd Cymru i gael manylion pellach yma.
Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â'r Bil i rym cyn gynted â phosibl, ac o ran cynlluniau presennol rydym yn gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill/Mai 2023.

## Golwg Agosach

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, ewch i: Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW. CYMRU. Mae nifer o adnoddau'n cael eu datblygu i gefnogi'r Bil, gan gynnwys Map Cydrannau sy'n amlinellu darpariaethau allweddol y Bil a phrif ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth.
Mae'r Senedd wedi cyhoeddi erthygl sy'n rhoi gwybodaeth gefndirol am y Bil, yn esbonio'r hyn y mae'n ei wneud, ac yn nodi'r materion allweddol a ystyriwyd gan Bwyllgorau'r Senedd: Gwaith teg a gwell gwasanaethau cyhoeddus? Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (senedd.wales).

## Ymgysylltu pellach

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymgysylltu â chi ynghylch y Bil a siarad mwy am bwysigrwydd y ddeddfwriaeth hon ac ymgorffori gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

I gysylltu â'r tîm, e-bostiwch SPEFW@llyw.cymru

Gallwch danysgrifio i gylchlythyr chwarterol y Bartneriaeth Gymdeithasol i gael diweddariadau pwysig ar y Bil yma.



## Datblygu'r Proffesiwn Pobl: Digwyddiad HPMA Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Chymuned Gwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Cynhaliodd HPMA Cymru ddigwyddiad partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) o'r enw 'Datblygu'r Proffesiwn Pobl: GWEITHLU SY'N ADDAS I'R DYFODOL' ar 23 Medi 2022 yn Stadiwm Principality, Caerdydd.

Roedd y digwyddiad yn arddangos y cytundeb teiran a sefydlwyd rhwng AaGIC, GIG Cymru a HPMA Cymru yn 2022 a'r ymrwymiad i ddatblygu'r Proffesiwn Pobl (Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) ar draws GIG Cymru trwy raglen waith bwrpasol.

Agorwyd y digwyddiad gan arweinydd 'Datblygu Proffesiwn' Rhwydwaith Cymheiriaid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Dirprwy Lywydd HPMA a Chyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Sarah Morley, Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, AaGIC, Julie Rogers, a Chadeirydd HPMA Cymru, Gareth Hardacre (isod) a fu'n trafod ac yn archwilio amcanion, myfyrdodau ar COVID a dathlu cyflawniadau hyd yma.




Dilynwyd y triawd gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Susan Thomas (isod) a fu'n trafod stori datblygiad y proffesiwn hyd yn hyn, hunaniaeth a rheoli talent




Nesaf oedd Lucy Adams, Cyfarwyddwr, Disrupted HR, a roddodd gyflwyniad rhithiol o'r enw 'Ein Proffesiwn a'i ddyfodol'.

Dilynwyd Lucy gan Samantha Morgan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Mewnwelediadau a Strategaeth Pobl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a arweiniodd weithdy wedi'i hwyluso ar Arwain Newid yn GIG Cymru (isod).



Arweiniodd Fran O'Hara, Cyfarwyddwr Creadigol Scarlett Design a Susan Thomas ail weithdy'r dydd o'r enw 'Ein Hunaniaeth' i adolygu'r gwaith hunaniaeth hyd yma ac ymgysylltu â gwaith pellach.

Dilynwyd y gweithdy gan y prif siaradwr Linda Moir, cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau In-Flight, Virgin Atlantic, Arbenigwr mewn Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cwsmeriaid o'r enw Meithrin Talent ar gyfer y Dyfodol.

Yna rhoddodd Cadeirydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yr Athro Tracy Myhill OBE (isod), fyfyrdodau proffesiynol a phersonol ynghylch ei gyrfa amrywiol gyda chyflwyniad o'r enw 'O'r derbynnydd i Brif Swyddog Gweithredol Cyfarwyddwr Pobl i'r Cyfarwyddwr Anweithredol a'r Cadeirydd'.




Dilynwyd cyflwyniad Tracy gan sesiwn olaf y dydd sef Sesiwn Holi ac Ateb/ panel gyda Tracy Myhill, Julie Rogers, Sarah Morley, Gareth Hardacre a chyn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Hazel Robinson.

Cadeirydd HPMA Cymru
Gareth Hardacre;

"Rwy'n gobeithio bod pawb a fynychodd wedi mwynhau'r digwyddiad ac wedi cael cyfle i gwrdd â chydweithwyr ar draws y proffesiwn am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Mae ein partneriaeth yn adeiladu ar gryfderau ac uchelgeisiau ei chydrannau unigol a gallwn fod yn gyffrous ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni gyda'n gilydd nawr ac yn y dyfodol."

"Mae hyn yn cynnwys Cynhadledd Datblygu'r Proffesiwn Pobl a gynhelir ar 7 Tachwedd. Cadwch lygaid am gyfathrebiadau pellach gan y bydd hwn yn ddigwyddiad y mae'n rhaid i bob cydweithiwr ledled Cymru ei fynychu."




## Y NEWYDDION DIWEDDARAF: Cynhadledd a Gwobrau HPMA - dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 3 Mai 2023




Y dyddiad cau ar gyfer Cynhadledd Rhagoriaeth mewn Pobl a Gwobrau yw 3 Mai 2023. Peidiwch â'i adael tan y funud olaf - dechreuwch ar eich cyflwyniad NAWR.

Gallwch gael gwybodaeth am bob un o'r 17 gwobr drwy fynd i wefan HPMA lle byddwch hefyd yn dod o hyd i awgrymiadau a syniadau da ac enillwyr blaenorol. I ymgeisio am y gwobrau cliciwch yma. Cyhoeddir yr enillwyr yn y seremoni wobrwyo yn Leeds ar ddiwrnod cyntaf Cynhadledd HPMA y DU ddydd Mawrth 19 Medi 2023.

## Cwrdd â'r Pwyllgor: Millie Tottle,Gweinyddwr Cangen HPMA Cymru



Dechreuais fy nhaith ym myd AD ym mis Ebrill 2021 fel Prentis Cynorthwy-ydd Gweinyddu Busnes AD yn PCGC. Roedd bod mewn rôl prentisiaeth yn fy ngalluogi i ennill profiad/gwybodaeth eang o swyddogaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn PCGC, a gadarnhaodd fy angerdd am AD yn ei dro.

Ar ôl 15 mis yn fy rôl prentisiaeth, llwyddais i sicrhau swydd barhaol yn PCGC fel Cynorthwy-ydd Datblygu Pobl a Sefydliadol.

Yn ystod fy mhrentisiaeth roeddwn yn ddigon ffodus i gael cynnig rôl Gweinyddwr Cangen HPMA Cymru. Mae cael y rôl hon wedi fy ngalluogi i rwydweithio a gweithio ochr yn ochr â grŵp gwych o bobl sydd wedi ehangu fy ngwybodaeth ac wedi fy helpu i fagu mwy o hyder. Mae'r rôl hon hefyd wedi fy ngalluogi i gymryd rhan mewn cynllunio digwyddiadau ac achlysuron, gan ychwanegu pluen arall yn fy het.

Rwy'n credu bod y swydd rwy'n ei gwneud yng nghangen HPMA Cymru wedi fy helpu'n fawr i ddatblygu yn fy ngyrfa, ac rwy'n gyffrous i ddarganfod beth sydd gan y dyfodol!

## Cyhoeddwyd dyddiadau Cynhadledd Cyfraith Cyflogaeth y Gwanwyn HPMA Cymru

Bydd HPMA Cymru, ar y cyd â Thîm Cyflogaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnal 2 Gynhadledd Cyfraith Cyflogaeth yn ystod mis Mai 2023.

Gweler isod i gael manylion pellach a sut i archebu eich lle.

### Cynhadledd De Cymru

**PRYD:** 9 Mai 2023
**BLE:** Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd

Archebwch eich lle ar wefan Cynhadledd De Cymru yma.

### Cynhadledd Gogledd Cymru

**PRYD:** 10 Mai 2023
**BLE:** Gwesty'r Oriel, Llanelwy

Archebwch eich lle ar wefan Cynhadledd Gogledd Cymru yma.



# DYDDIADAU I'R DYDDIADUR 2023

## Mis Ebrill.......................................

26 a 27 Brand Cyflogwr CIPD a Chynhadledd Recriwtio

27 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CIPD Cymru (Gweler y pdf canllaw digwyddiadau)

## Mehefin.......................................

7 CIPD Cymru Cael gwerth allan o'ch aelodaeth CIPD unwaith y byddwch wedi gorffen eich astudiaethau (Gweler y pdf canllaw digwyddiadau)

7 a 8 GŵylWaith CIPD

9 Cyfarfod Pwyllgor HPMA Cymru

## Awst.......................................

11 Cyfarfod Pwyllgor HPMA Cymru

## Hydref.......................................

13 Cyfarfod Pwyllgor HPMA Cymru

## Mai.......................................

4 Diweddariad Cyfreithiol CIPD Cymru (Gweler y pdf canllaw digwyddiadau)

9 Digwyddiad Cyfraith Cyflogaeth HPMA Cymru (Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd)
**Archebwch eich lle yma!**

10 Digwyddiad Cyfraith Cyflogaeth HPMA Cymru (Gwesty Oriel, Llanelwy)
**Archebwch eich lle yma!**

10 Cynhadledd Gwobrau a Buddion CIPD

12 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol HPMA

## Gorffennaf.......................................

14 Cyfarfod Pwyllgor HPMA Cymru

## Medi.......................................

8 Cyfarfod Pwyllgor HPMA Cymru

19 a 20 Cynhadledd a Gwobrau Rhagoriaeth mewn Pobl HPMA

## Tachwedd.......................................

7 Cynhadledd Datblygu'r Proffesiwn Pobl (Lleoliad i'w gadarnhau)

9 a 10 Cynhadledd ac Arddangosfa Flynyddol CIPD



# Mwy o luniau o Gynhadledd a Seremoni Wobrwyo flynyddol HPMA Cymru
















